**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 16 Ebrill 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Lorraine Barrett | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Delyth Evans | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Ron Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-08-2002 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y pwyllgor yn ôl ar ôl yr egwyl dros y Pasg. Yna croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau newydd Lorraine Barrett a Delyth Evans i'r Pwyllgor a chroesawodd John Griffiths yn ôl. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i Christine Chapman, Huw Lewis a Tom Middlehurst am eu cyfraniad ar waith y Pwyllgor.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor Deddfau a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, ychydig wythnosau yn ôl, gynnal seminar amser cinio ar y cyd llwyddiannus iawn ar y broses o ddrafftio deddfwriaeth, yn cynnwys cyd-ddrafftio yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Mynychwyd

y seminar gan Aelodau’r Cynulliad, eu staff cynorthwyol a gweision sifil. Nid oedd unrhyw gynrychiolwyr o unrhyw sefydliadau o’r tu allan na’r wasg yn bresennol yn y seminar hwnnw.

2.3 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod ail seminar yn cael ei drefnu ar gyfer y cyrff allanol a’r wasg. Byddai’n cael ei gynnal ddydd Mercher, 1 Mai, 12.45pm – 13.30; Ystafell Gynadledda “C”, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau, pe na allent hwy neu eu staff cynorthwyol fynychu’r seminar cyntaf a phe baent yn dymuno mynychu’r un hwn, y dylent hysbysu Clerc y Pwyllgor er mwyn gwneud trefniadau perthnasol.

2.4 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor, yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfau a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, y penderfynwyd gwahodd cynrychiolwyr Cydbwyllgor Offerynnau Statudol a Phwyllgor Diwygio Dadreoli a Rheoliadol Tŷ’r Cyffredin i fynychu cyfarfod ein Pwyllgor i ddweud wrth yr Aelodau am eu gwaith ac i gyfnewid safbwyntiau ar arferion a gweithdrefnau.

2.5 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor iddynt gael cadarnhad y byddai’r ddirprwyaeth o’r ddau Bwyllgor yn dod i Gaerdydd ar 22/23 Ebrill er mwyn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Deddfau.

2.6 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfrannu at raglen y ddirprwyaeth ac i siarad â gwesteion yn anffurfiol. Derbyniodd yr Aelodau Amserlen Ddrafft o’u hymweliad.

### Eitem 3: Materion y Cynulliad i’w Hystyried

### LC401A – Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002

3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC401A (Adroddiad).

**LC448 – Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr “Gweithiwr Gofal Cymdeithasol”) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC448 (Adroddiad).

**LC449 – Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 9) (Cymru) 2002**

3.7 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor dri sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC449 (Adroddiad).

**LC450 – Rheoliadau Bwyd (Cnau Daear o Tseina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002**

3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.11 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod gwall drafftio yr oedd angen ei gofnodi o dan Reol Sefydlog 11.5. Roedd hwn yn ymwneud â gwrthdaro, i bob golwg, rhwng rheoliad 3(2) a oedd yn gwahardd mewnforio i Gymru a rheoliad 3(1) a oedd yn awgrymu bod modd caniatáu mewnforio mewn rhai amgylchiadau.

3.12 Yn ogystal, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC450 (Adroddiad).

**LC451 – Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistachio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002**

3.14 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.15 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod gwall drafftio yr oedd angen ei gofnodi o dan Reol Sefydlog 11.5. Roedd hwn yn ymwneud â gwrthdaro, i

bob golwg, rhwng rheoliad 3(2) a oedd yn gwahardd mewnforio i Gymru a rheoliad 3(1) a oedd yn awgrymu bod modd caniatáu mewnforio mewn rhai amgylchiadau.

3.16 Yn ogystal, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC451 (Adroddiad).

**LC452 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.18 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC452 (Adroddiad).

**LC453 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.18 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC453 (Adroddiad).

**LC454 –Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2002**

3.24 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.25 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.26 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC454 (Adroddiad).

**LC455 – Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.27 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.28 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.29 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC455 (Adroddiad).

**Eitem 4 Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, dyddiedig 26 Chwefror 2002**

**LC391 – Rheoliadau Monitro BSE (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb i'r llythyr dyddiedig 22 Ionawr 2002 at Carwyn Jones AM Gweinidog dros Faterion Gwledig ar **Rheoliadau Monitro BSE (Cymru) (Diwygio) 2001**. Ystyriodd y Pwyllgor bod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 am eu bod yn cynnwys drafftio a oedd yn ddiffygiol ym marn y Pwyllgor.

4.2 Ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan y Gweinidog barnodd y Pwyllgor fod y geiriau "in which they appear" yn rheoliad 2(3), fel y'u defnyddiwyd wrth gyfeirio at "Rheoliad y Comisiwn", yn ymddangos fel pe baent yn gyfystyr ag achos o ddrafftio diffygiol oherwydd, o dan y diffiniad, dim ond un "Rheoliad y Comisiwn" sy'n bodoli.

**4.3 O ganlyniad, mae gofyn i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r diffiniad o "Reoliad y Comisiwn" fel y nodir gan reoliad 2(2)(a) a'r modd y caiff y term hwnnw ei ddefnyddio yn y darpariaethau a nodir gan reoliad 2(3) a (7) ar y sail bod y drafftio yn ymddangos yn ddiffygiol.**

4.4 Mewn perthynas â'r pwynt ynglŷn â'r cyfeiriad yn rheoliad 2(4)(c) at hysbysu o fewn 24 awr yn dilyn marwolaeth, roedd y Gweinidog wedi derbyn bod hyn yn ddiangen a chytunodd y Pwyllgor felly y dylid cyfeirio sylw'r Cynulliad at hyn hefyd, fel achos o ddrafftio diffygiol.

**4.5 Ar ôl ystyried y sylw a wnaethpwyd gan y Gweinidog mae gofyn i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r geiriad amnewidiol yn rheoliad 2(4)(c) ar y sail bod y drafftio yn ddiffygiol.**

4.6 Yn ogystal gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad.

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Ebrill 2002.